

# YN CEFNOGI EIN GILYDD

HOSPIS TŶ'R EOS
ADRODDIAD BLYNDDOL 2022

## CYSYLLTWCH Â NI

Hospis Tŷ'r Eos, Ffordd Caer,
Wrecsam, LL11 2SJ

01978 316800

info@nightingalehouse.co.uk

nightingalehouse.co.uk

nightingalehouse

nightingalehh

## CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR SY'N AELODAU PWYLLGOR


Mrs Eluned Griffiths
Dr Neil Braid
Mr Andrew Morse
Mrs Joan Lowe
Dr Jenny Duguid
Mr Graham Greasley
Mrs Vicky Varley
His Honour Philip Hughes
Mrs Alison Brebner
Mr Robert Cole
Mr Peter Weston
Mr Richard Thomas
Mr Chris Burgoyne


## DATGANIAD CENHADAETH

Darparu gwasanaethau i unigolion a'u teuluoedd sy'n byw yng ngogledd-ddwyrain Cymru a'r gororau ac yn byw gyda diagnosis o salwch gwaethygol a / neu sy'n cyfyngu ar eu bywydau. Mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu lle bo hynny'n bosib yn y lleoliad sydd orau gan yr unigolyn a bob amser o fewn yr adnoddau sydd ar gael i Hospis Tŷ'r Eos.

Yn dilyn asesiad o anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol ac ysbrydol y claf, mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu gan dîm aml-ddisgyblaeth a hyfforddwyd ac sy'n gymwys i ateb anghenion ein holl gleifion, gan gynnwys rhai sydd ag anghenion cymhleth ac arbenigol.

## GWELEDIGAETH

Darparu gofal rhagorol, tosturiol wedi'i bersonoleiddio i rai sy'n byw gyda salwch gwaethygol a / neu sy'n cyfyngu ar eu bywydau, yn ein cymuned, a chymorth i'w teuluoedd ac anwyliaid.


## GWERTHOEDD

Mae gwerthoedd yn berthnasol i bob lleoliad a chyswllt rhwng staff a gwirfoddolwyr ac i sut yr ydym yn trin cleifion a theuluoedd a sut yr ymgysylltwn â'n sefydliadau partner, cefnogwyr a chyflenwyr. Ymdrechwn bob amser i fod yn dosturiol, cynhwysol, gonest, parchus a rhagweithiol.

## EIN DALGYLCH

Mae ein siopau wrth galon ein cymuned leol ac yn gatalydd i godi arian yn llwyddiannus. Mae gennym siopau yn Wrecsam, Yr Wyddgrug, Bwcle, Whitchurch a Chroesoswallt.

Grwpiau Cymorth yw wyneb ein hospis allan yn y gymuned, gan weithio fel cenhadon dros ein hachos. Rydym yn ffodus o gael ein cynrychioli yn yr ardaloedd canlynol: Y Bala, Y Waun, Corwen, Hanmer, Coed-llai, Llangollen a'r Wyddgrug.





Hospis Tŷ'r Eos
Rhif Cofrestredig yr Elusen : 1035600 (Registered in England and Wales)

# CROESO

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn rhaid cyffrous a phrysur i'r hosbis wrth inni gwblhau tri cham ein rhaglen foderneiddio, a oedd yn costio £5M. Mae'r ardal Groesawu newydd, y siop anrhegion ac Atriwm Bradbury wedi bod yn gaffaeliad i gleifion yr hosbis, eu teuluoedd a'u cefnogwyr. Mae'r gym a'r cyfarpar diweddaraf wedi bod yn help mawr i wella symudedd llawer o'n cleifion. Mae gan y ddarpariaeth Gwasanaethau Dydd ar ei newydd wedd, a elwir yn Ganolfan Les yn awr, raglen gylchol 12 wythnos sydd â'r nod o gefnogi a darparu gofal, gwybodaeth, cyngor a gweithgareddau rhyngweithiol er mwyn gwella ansawdd bywyd ein cleifion. Mae'n cael ei darparu gan dîm medrus, brwdfrydig, ymroddedig, integredig ac mae'r adborth gan y cleifion yn gadarnhaol dros ben.

Ni fu ond yn bosibl ariannu'r tri cham moderneiddio gyda grantiau gan Sefydliadau a busnesau, drwy eu hyder yn ein strategaeth a'n trefn lywodraethu dda, a drwy gefnogaeth barhaus pob rhan o'n cymuned.

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi llwyddo i recriwtio staff meddygol a chlinigol medrus a chymwys iawn, ac maent wedi integreiddio'n dda fel tîm. Yn 2022 fe wnaethom ffurfio partneriaeth bwysig gyda Supportive Care UK sy'n rhoi mewnbwn gwerthfawr gan ymgynghorwyr i'n tîm meddygol a'n tîm nyrsio. Mae ein dau ymgynghorydd o Supportive Care UK yn darparu hyfforddiant, cefnogaeth a rhaglen ddatblygu sydd o fudd i'n tîm meddygol a'n tîm clinigol. Rydyn ni wir yn gwerthfawrogi eu harbenigedd; maent hefyd yn gwbl ddibynadwy ac mae'n hawdd iawn cyfathrebu â nhw.

Hefyd yn 2022, cafodd cytundeb ei lofnodi o'r diwedd gyda BIPBC i gael rhagor o gyllid. Nid yw dal yn gymaint â'r cyllid â ddarperir i hosbisau de Cymru gan eu Byrddau Iechyd nhw. Mae, fodd bynnag, yn gynnydd i'w groesawu, er yn fychan, i'n cyllid.

Gydol 2022, mae'r adran cynhyrchu incwm wedi gweithio'n galed i geisio dod yn ôl i lefelau incwm cyn Covid ac mae ein busnes adwerthu yn mynd o nerth i nerth.

Rydyn ni'n awr yn dechrau gwaith ar y pedwerydd cam moderneiddio, a'r cam olaf, sef ail-ddylunio'r uned cleifion mewnol. Roedd hyn yn angenrheidiol oherwydd datblygiadau mewn gofal lliniarol ac oherwydd anghenion newidiol cleifion a'u teuluoedd. Bydd y cyfleusterau newydd yn darparu'r uned cleifion mewnol fodern orau posibl i gleifion, teuluoedd a staff, gan alluogi inni gynyddu nifer y cleifion rydyn ni'n gallu eu lletya. Bydd y gwaith moderneiddio helaeth yn ein helpu i gyrraedd ein nod strategol o gynyddu nifer y cleifion y gall yr hosbis gynnig gofal a chymorth iddynt.



Bu'r gwaith o weithredu'r cam olaf yn heriol oherwydd nid oedden ni'n barod i gau'r uned cleifion mewnol. Mae ein staff a'n gwirfoddolwyr, ar draws pob adran, wedi bod yn ardderchog yn gweithio gyda'i gilydd i ad-drefnu uned newydd, dros dro i gleifion mewnol, er bod ynddi lai o welyau a'i bod mewn ardal ar wahân o'r hosbis.

Ni fyddai wedi bod yn bosibl inni ddod cyn belled heb y gefnogaeth aruthrol a gawsom gan unigolion, grwpiau codi arian a busnesau, sydd, er gwaethaf yr anawsterau economaidd parhaus, wedi sicrhau ein bod yn gallu dal i ddarparu'r gofal lliniarol gorau posibl i'n cymuned. Ar ran yr hosbis, diolch ichi gyd.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a Thîm Gweithredol yr Hosbis wedi dal i weithio'n galed i sicrhau trefn lywodraethu dda ac i gynnal ein nod strategol. Hoffai fy nghydweithwyr ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a minnau ddiolch i'n holl staff a'r gwirfoddolwyr am eu harbenigedd, eu hymroddiad a'u parodrwydd i deithio'r ail filltir yn ystod blwyddyn heriol arall.

Ar nodyn personol, hoffwn ddiolch i'm cyd Ymddiriedolwyr am eu cefnogaeth barhaus, am eu harbenigedd a'u hymrwymiad.

Unwaith eto, bu'n fraint cyflwyno'r adroddiad hwn a theimlaf y gallwn edrych ymlaen i'r hosbis barhau i ddarparu'r gofal lliniarol a'r gefnogaeth y mae ei gymuned yn ei haeddu.

*Eluned Griffiths*

**Eluned Griffiths, Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**

# YN CEFNOGI EIN GILYDD



*Dr May Khaing*



*Dr Husna Munsoor*



*Nyrs Ymgynghorol Tracy Thomas*



*Dr Jessica Roberts*



*Dr Melissa Everett*



*Dr Charlotte Healey*



*Yr Athro Matt Makin*



*Dr Jonathan Martin*



*Dr Richard Alleyne*

**Rydym wedi ffurfio partneriaeth â Supportive Care UK, a fydd yn darparu gwasanaeth ymgynghorol i'r hosbis yn ogystal â chymorth rhithiol llawn i'n tîm meddygol, ynghyd â chymorth y tu allan i oriau i'r staff nyrsio.** Mae meddygon Tŷ'r Eos, meddygon teulu, nyrsys, a therapyddion yn cydweithio ag ymgynghorwyr gofal lliniarol arbenigol i ddarparu gofal sy'n cael ei arwain gan gleifion i'r gymuned leol. Mae hyn yn golygu bod gweithwyr meddygol a gofal iechyd proffesiynol yn defnyddio'u sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad i drafod triniaeth cleifion unigol bob dydd.

Cyn Awst 2022, roedd ein hosbis yn dibynnu ar y bwrdd iechyd lleol, BIPBC, am fewnbwn ymgynghorwyr. Bydd y bartneriaeth newydd â Supportive Care UK yn sicrhau y bydd gan Dŷ'r Eos y cymorth ymgynghorol gorau ar gyfer model cynaliadwy i ddarparu gwasanaethau i gleifion yn y dyfodol.

Meddai Steve Parry, Prif Weithredwr Hosbis Tŷ'r Eos, ***"Mae'r cymorth a ddarperir gan Supportive Care UK, ynghyd â thîm meddygol mewnol yr hosbis, yn golygu y bydd yr hosbis yn parhau i ddarparu gofal lliniarol rhagorol a bydd cyfleoedd i ehangu'r gwasanaeth yn y dyfodol. Mae'r hosbis yn ddiolchgar i BIPBC am eu cymorth ymgynghorol dros y blynyddoedd ac rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio â'r bwrdd iechyd i sicrhau bod ein cleifion i gyd yn cael y gofal gorau posibl."***

Mae cyfathrebu'n allweddol i ddarparu gofal i gleifion, gan sicrhau bod y driniaeth a ddarperir yn canolbwyntio ar y cleifion a'u teulu.

***"Yn Nhŷ'r Eos, rydym yn cael sawl trafodaeth grŵp am y penderfyniadau a wneir a'r hyn sydd orau i'r claf, ac mae hynny'n rhoi boddhad mawr."***
- Jessica Roberts, Meddyg Teulu Tŷ'r Eos

Mae'r tîm Meddygol yn Nhŷ'r Eos a Supportive Care UK yn cydweithio i gael effaith bositif ar gleifion ac ar brofiad eu teulu pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau'r hosbis.

Meddai Prif Swyddog Gweithredu Supportive Care UK, Charlotte Healey, ***"Mae Supportive Care mor falch o'r bartneriaeth â Hosbis Tŷ'r Eos i ddarparu cymorth ymgynghorol i helpu eu tîm meddygol presennol. Mae ymgynghorwyr SCUK yn cwrdd ddwywaith yr wythnos i drafod â'r Bwrdd a thimau amlddisgyblaethol yn ogystal â bod wrth law i gynnig cyngor dros y ffôn 24 awr y dydd/365 diwrnod y flwyddyn, ac i ddarparu hyfforddiant pwrpasol a goruchwyliaeth glinigol."***

**Yn y llun: Tîm Tŷ'r Eos a Supportive Care UK**

# MAE POB RHIF YN CEFNOGI STORI
# AM FYWYD GO IAWN

Mae ein gofal yn cael ei ddarparu gan dîm aml-ddisgyblaeth sy'n cynnwys nyrsys, meddygon, gweithwyr cymdeithasol, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, caplaniaid, therapyddion amgen, gwirfoddolwyr a mwy – **sy'n gweithio gyda'i gilydd i helpu unigolion a'u hanwyliaid.**

Rhoddir ciplun isod o'r gwaith a wnaed gan ein tîm yn 2022.

**106**
o dderbyniadau i'r uned cleifion mewnol

**758**
wedi mynychu'r ganolfan les

**754**
o apwyntiadau therapïau cyflenwol

**323**
o asesiadau cleifion allanol

**65**
o sesiynau aciwbigo

**90**
o sesiynau efnogaeth ysbrydol

**374**
o sesiynau yn y gym

**49**
o gleifion wedi cael hydrotherapi

**406**
o sesiynau Cymorth galar i Oedolion

**466**
o sesiynauCymorth galar i Blant



# YN CEFNOGI EIN GILYDD…



**Gyda'i chyfleusterau modern, mae ein Canolfan Les newydd yn cynnig asesiadau mewn clinigau cleifion allanol, sesiynau tylino aromatherapi, sesiynau lles, ac amrywiol driniaethau, gan gynnwys therapi celf a cherddoriaeth.** Nod ein gwasanaethau yw helpu pobl a'u teuluoedd i ymdopi ag effeithiau clefydau difrifol, na ellir eu gwella, megis clefyd niwronau motor, canser, a methiant datblygedig y galon.

Mae llawer o'n cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaethau i gleifion allanol wedi dweud pa mor bwysig yw eu hymweliadau wythnosol i'r Ganolfan Les, nid yn unig o safbwynt meddygol ond hefyd oherwydd yr ymdeimlad o gymuned a gânt pan maent o gwmpas pobl sy'n wynebu amgylchiadau tebyg.

Fel cyn nyrs yn Ysbyty Plant Alder Hey, mae Beatrice yn deall pwysigrwydd bod gyda phobl eraill ar adegau anodd.

***"Mae gen i glefyd y galon, felly mae mynd i Dŷ'r Eos wedi bod yn help mawr, i mi ac i fy ngŵr. Mae wedi rhoi seibiant iddo, ac mae wedi bod yn gyfle imi i ddysgu sgiliau newydd ac i fwynhau'r ymdeimlad o gymuned a geir yma.***
***Mae fy ngŵr wedi bod yn gofalu amdanaf ers tipyn o flynyddoedd, ac mae'n gallu achosi straen ar adegau, nid am ei bod yn anodd gofalu amdanaf...ond mae cael diwrnod i ffwrdd wedi ein galluogi i ymlacio a pheidio poeni drwy'r amser.Mae awyrgylch gofalgar yma sy'n gwneud i chi deimlo nad chi yw'r unig un sy'n mynd drwy hyn.***

***"Rydych yn cael llawer o gefnogaeth gan gleifion eraill a'r staff, mae pawb yn yr un cwch ... dyna sut mae'n teimlo yma."***

Cyn ymweld â hosbis, fe allai pobl fod yn unig, yn enwedig os buon nhw'n wael ers tro, meddai Beatrice

***"Nid ydych yn cael yr un cysylltiad cymdeithasol; ni allwch fynd allan mor aml... roeddwn yn teimlo'n ofnus bron bod yn rhan o gymdeithas. Roeddwn yn meddwl... fedra i ddim gwneud hyn, all i ddim gwneud y llall – yn enwedig yn ystod Covid. Mae dod i'r hosbis yn gwneud i fy mywyd deimlo'n fwy normal, os yw hynny'n gwneud synnwyr. Mi ydych yn cael gofal da iawn yn Nhŷ'r Eos...100%."***

**Yn y llun (ar y chwith): Beatrice gyda 'Barney'ci 'Pets As Therapy'**


***"Mae'n wych gweld y cleifion yn cael hwyl, yn anghofio am eu pryderon, ac yn cysylltu ag eraill.***

***Pan fo cleifion yn adennill eu hunan-barch a'u hyder mae pawb yn elwa."***

Carolyn James
Arweinydd Lles




# CEFNOGI'R RHIFAU
# Y TU ÔL I'R STORI



INCWM YR HOSPIS **£4.048M**

- INCWM CODI ARIAN **32%**
- INCWM STATUDOL **23%**
- **ELW'R** LOTRI **12%**
- INCWM RHODDION EWYLLYS **25%**
- YR **ELW** O ADWERTHU (GAN GYNNWYS ARLWYO) **8%**



GWARIANT YR HOSPIS **£3.810M**

- CYMORTH TEULU AC I GLEIFION **86%**
- CODI ARIAN **14%**

## BETH ALLWCH CHI WNEUD?

**GWIRFODDOLI**

Dibynnwn ar gefnogaeth gwirfoddolwyr i ddarparu'r gofal gorau posib i'n cleifion. Mae pob gwirfoddolwr gyda'r hospis yn credu yn y gwaith a wnawn ac yn teimlo'n gryf am yr effaith y mae'n ei gael ar fywydau ein cleifion a'u teuluoedd.

**LOTRI'R HOSPIS**

Bydd ymuno â'n loteri am ddim ond £1 yr wythnos yn gwneud gwahaniaeth. Eleni llwyddodd ein loteri i wneud elw o **£474,562** a defnyddiwyd y cwbl i gefnogi gwasanaethau cleifion, gan ariannu'r hospis am **45** diwrnod.

Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar gyfrifon rheoli Tŷ'r Eos ar 31/12/22.
Am y cyfrifon cyfunol, ewch i wefan Tŷ'r Cwmnïau.